# Llif: Labordy Môn
## O'r mynydd i'r môr

# Flow: Anglesey Laboratory
## From the mountain to the sea

Lindsey Colbourne, Lisa Hudson & Dr Jonathan Malarkey

Dechreuodd Llif yn 2016 fel archwiliad cyfranogol o wyddoniaeth a chelfyddyd llif drwy ddefnyddio rhediadau marblis, wedi'i gefnogi gan gronfa 'Synthesis' Canolfan Gelfyddydau ac Arloesi Pontio sy'n annog gwyddonwyr ac artistiaid i ddatblygu syniadau sy'n pontio'r bydoedd gwahanol hyn. Mae Lindsey a Lisa yn artistiaid amlgyfrwng, sy'n rhannu diddordeb mewn prosesau, deunyddiau a chymryd rhan. Mae ymchwil Jonathan, sy'n defnyddio modelau cyfrifiadurol, gwaith maes a labordy, yn ymwneud â'r broses lle mae tonnau a cherrynt yn symud tywod mewn moroedd arfordirol.

Gan adeiladu ar y cydweithrediad cychwynnol hwn, mae Llif: Labordy Môn yn archwilio arwyddocâd a symudiad gronynnau sy'n llifo o Fynydd Parys ac o amgylch arfordir Ynys Môn. Y mae wedi'i ysbrydoli'n benodol gan stori Afon Goch y Gogledd, cynaeafu copr o ddyfroedd draenio asidig Mynydd Parys trwy'r broses 'glawiad' a draeniad Mynydd Parys yn 2003, pan gafodd 270,000m3 o ddŵr asidig eithriadol (pH 2) ei bwmpio o'r mynydd, a rhwystro llifogydd a fyddai wedi bod yn drychinebus i Amlwch. Cynhyrchwyd Llif: Labordy Môn i ddechrau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol, Ynys Môn, ac mae'n cynnwys gosodiad, perfformiad (gyda Cai Ladd, Rhys Trimble, Sioned Eleri Roberts a Katherine Betteridge), fideo, cardiau 'top trump' a marblis a wnaed yn arbennig gan Iolo Price. Mae'n bleser gan Pontio gyflwyno elfennau dethol o'r gwaith yma.

Llif began in 2016 as a participatory exploration of the science and art of flow through the use of marble runs, supported by the Pontio Arts and Innovation Centre's 'Synthesis' fund that encourages scientists and artists to develop ideas that bridge these different worlds. Lindsey and Lisa are multi-media artists, who share a common interest in processes, materials and participation. Jonathan's research, which uses computer models, field and laboratory work, concerns the process of sand transport by waves and currents in coastal seas.

Building on this initial collaboration, Llif: Labordy Môn explores the significance and movement of particles in flow from Parys Mountain, and around the coast of Anglesey. It is particularly inspired by the story of Afon Goch y Gogledd, the harvesting of copper from the acid drainage waters of Parys Mountain through the 'precipitation' process, and the drainage of Parys Mountain into the sea in 2003, when 270,000 m3 of extremely acid water (pH 2) was pumped from the mountain, saving a potentially catastrophic flooding of Amlwch. Initially made for Eisteddfod Genedlaethol, Ynys Môn, it includes installation, performance (with Cai Ladd, Rhys Trimble, Sioned Eleri Roberts and Katherine Betteridge), video, top trump cards and specially made marbles by Iolo Price.

SYNTHESIS
Pontio
Prifysgol Bangor University
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Ariennir gan y Loteri Lottery Funded
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Pŵer Niwclear Horizon Nuclear Power